

Angerdd am addysgu a dychwelyd i Gymru: Stori Sian



Sian

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Mae Sian, athrawes Bioleg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, yn ymgorffori'n berffaith yr angerdd a'r ymroddiad i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Diolch i'r Cynllun Pontio, mae ei dychweliad i Gymru wedi caniatáu iddi asio ei gyrfa broffesiynol â'i gwreiddiau diwylliannol.

Yn wreiddiol o Gymru ac wedi treulio'r rhan gychwynnol o'i gyrfa addysgu yn Llundain, daeth awydd cryf dros Sian i ailgysylltu â'i gwreiddiau.

Wrth werthfawrogi ffocws system addysg Cymru ar lesiant a chydbwysedd bywyd a gwaith, mae Sian yn amlygu, *"Rwy'n hoffi bod mwy o bethau i'w gwneud â'n lles ni fel athrawon, a lles y plant hefyd. A dwi'n teimlo bod mwy cydbwysedd gwaith i'w gael yng Nghymru."*

Gadawodd ei magwraeth ddwyieithog hi yn wyladwrus i ddechrau am ei sgiliau Cymraeg. Serch hynny, roedd ei hymrwymiad i ysbrydoli ei dysgwyr wedi ei hysgogi i gofleidio addysgu drwy'r Gymraeg yn llawn.

"Dw i nawr yn fodel rôl i'r plant sy'n dod i Glantaf, o gartrefi Saesneg, i ddangos iddyn nhw pa mor bwysig yw ymarfer yr iaith."

Yn angerddol am ei phwnc, mae Sian yn credu'n gryf yng ngwerth addysgu gwyddoniaeth yn y Gymraeg, er mwyn meithrin cenhedlaeth newydd o siaradwyr dwyieithog.

"Mae'n bwysig addysgu Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd mae'n helpu i ddatblygu ymennydd y plant, iaith y plant."

Roedd cefnogaeth y Cynllun Pontio yn hanfodol i gyfoethogi dulliau addysgu a sgiliau iaith Sian, gan wneud ei thaith addysgu yng Nghymru yn hynod werth chweil.

"Peidiwch â phoeni os nad ydych chi wedi cael lot o siawns i siarad yr iaith. Mae e'n dod nôl yn eitha glou. Wnes i rili mwynhau ei wneud e. Yn y tymor cynta ges i fwy o amser i wella fy addysgeg i yn yr iaith Gymraeg."

Mae stori Sian yn dyst i effeithiolrwydd Cynllun Pontio wrth gyfoethogi gyrfaoedd addysgu ac mae'n gymhelliant pwerus i addysgwyr sy'n ceisio gwneud gwahaniaeth ystyrlon trwy eu gwaith.

Dysgwch fwy am gyfleoedd addysgu yng Nghymru a'r Cynllun Pontio yn www.addysgwyr.cymru/pontio.

#AddysguCymru #CynllunPontio